yr oedd Cyngor yr Eglwysi Rhyddion wedi anfon cais i'r holl gynulleidfaoedd ymddwyn yn briodol, a pheidio ag ymosod ar y carcharor. Aed â'r carcharor i'r neuadd drefol, yr hon a ddeil yn agos i ddwy fil o bobl; cyn dim roedd y neuadd yn orlawn.

Ar y fainc eisteddai Dr. S.W. Griffith (Cadeirydd), Y Mri. Maurice Jones, W. Anthony, Dr. O. Wynne Griffith, G. Hughes Roberts, O.T. Williams a H. Parry. Eglurai Mr. William George, erlynydd ar ran yr heddlu, ei fod yn dwyn tri chyhuddiad yn erbyn y carcharor, sef llosgi capel Salem ar Orffennaf y pedwerydd, torri i mewn a lladrata o eglwys yr Holy Trinity yn Llandudno a thorri i mewn i gapel Tabernacl ym Mhwllheli. Yr oedd y gyfraith yn darparu anfon y carcharor i benyd wasanaeth am ei oes am y fath drosedd.

*(Camgymeriad yn adroddiad yr Herald, gweler fod W.A. Booth Ross wedi newid i W.A. Ross Booth)*

Y cyntaf i roi tystiolaeth oedd Samuel Lloyd, Bee Hive Pwllheli. Tystiodd iddo weld Booth yn Salem Terrace y nos Wener cyn y tân, ac yr oedd fel pe bai yn chwilio am rywbeth yng nghefn y capel ac yn cerdded o amgylch.

Un arall a oedd wedi gweld y carcharor oedd Mrs. Plas Jones, y Castell; dywedodd iddi ei gyfarfod ger ysgol Troed yr Allt oddeutu 7 o'r gloch y noson cyn y tân, ac iddi ei weld wedyn am un y bore.

* * *

Herfeiddiol a dweud y lleiaf oedd ymddygiad Ross. Honnai mai dau ddiwrnod ar bymtheg yn unig oedd er pan fu iddo gael ei ryddhau o'r carchar ar ynys Manaw. Roedd ei deimladau yn gryf yn erbyn awdurdod a chymdeithas, y rhai a feiai am ei gyflwr trallodus.

Tystiodd mai lladrata arian o'r blychau offrwm er mwyn cael bwyd a wnâi, ac os na châi arian yn yr eglwys byddai iddo ei llosgi mewn dialedd. 'Yr oeddwn yn lladrata yr arian er mwyn bwydo fy hunan, a llosgi er mwyn boddhad.' Aeth ymlaen i ddweud y byddai, pan ddoi yn rhydd, yn llosgi'r eglwysi fesul dwy ymhob tref, ac os âi'r dref i gyd yn wenfflam, gorau oll.


Pe byddai iddo gael dim ond swllt ym mlychau'r eglwysi, byddai i'r rhai hyn gael eu harbed. Honnai iddo fod wedi gweithio yn galed am oddeutu dwy awr yn torri i mewn i Salem, a'r cwbl i ddim diben gan na chafodd arian yno. 'Roeddwn mor flin wrth y diawliaid crefyddol, a dangosais iddynt fy nialedd.'

Tystiodd y Rhingyll Lloyd ei fod wedi sylwi fod dorau a oedd yng nghefn Siop Crugan, Pwllheli, perthynol i Mr Griffith Jones, Caernarfon, yn agored pan oedd yn mynd heibio tua hanner nos, nos Wener.

Aeth i hysbysu Evan Jones y rheolwr ac, ar ôl archwiliad, gwelwyd fod stwffwl oedd y tu fewn i'r dorau wedi ei dynnu ymaith. Roedd yn amlwg fod rhyw fath o erfyn wedi ei ddefnyddio i'r pwrpas. Gwnaed archwiliad o'r masnachdy ac ail glowyd y lle ac ni feddyliwyd mwy am y digwyddiad nes y torrodd y tân allan yn Salem yn ddiweddarach.

Gan fod y dorau hyn yn agor i fynedfa yng nghefn capel Tabernacl y Bedyddwyr, amheuodd yr heddlu y gallai rhyw ddifrod fod yno. Aeth y Parch. Henry Rees, y gweinidog, yng nghwmni y Rhingyll Lloyd ac amryw eraill, yno ac er eu syndod cawsant fod y *'safe'* haearn drom wedi ei symud a'i hagor. Roedd y papurau a oedd oddi fewn wedi eu gwasgaru i bob cyfeiriad yn y capel, ynghyd â'r holl dapiau nwy ar agor, gyda'r canlyniad fod y lle yn prysur lenwi â nwy a bod tân wedi ei roddi ar un ohonynt. Nid oedd dadl na buasai ffrwydriad mawr wedi digwydd a'r capel hwn hefyd wedi ei losgi oni bai iddynt ei ddarganfod mewn pryd.

Yn ei gyfaddefiad roedd Ross wedi torri i mewn i gapeli ym Mangor yn ogystal â rhai Pwllheli, a bu iddo gael ei gosbi ym mrawdlys Chelmsford yn 1911 am ddigwyddiadau cyffelyb. Taflwyd yr achos i lys chwarterol Caernarfon.



*William A. B. Ross, mewn cyffion ar ei ffordd i'r Llys.*

**Y Llys Yng Nghaernarfon**

Pan ymddangosodd William Ross gerbron y llys yng Nghaernarfon cafwyd ei ymddygiad yn herfeiddiol a chywilyddus unwaith eto, a defnyddiai araith anweddus.

Gofynnodd y barnwr iddo: 'Onid yw'n ffaith eich bod wedi cael eich cosbi gerbron rheithgor yn Chelmsford?'

'Am hynny y cafodd y rheithgor ei dalu, ynte?' atebodd.

Dywedodd wrth y barnwr y câi ei grogi os y dymunai, 'Wedi'r cwbl byddaf yn marw fel tithau ryw ddydd.'

Gofynnodd y barnwr, 'Oes ganddoch chi ddim cywilydd am yr hyn a wnaethoch?'

'Dos i'r diawl a gwna fel a fynni â mi,' oedd yr ateb.

Ar ddiwedd y gwrandawiad dedfrydwyd y carcharor i bum mlynedd o benyd wasanaeth, ac wrth gael ei arwain i'r gell, gwaeddodd, 'Diolch yn fawr, yr hen frawd.'

* * *

*Adroddiad a ymddangosodd yn yr Herald Gymraeg, 26 Awst 1913*

**Bygwth Tanio Capel**
**Llythyr Bygythiol at y Parch. Puleston Jones**

Yn dilyn y cyffro ynglŷn â llosgi capel Salem, taflwyd y dref i gyflwr o ddychryndod arall yr wythnos ddiweddaf gan waith rhyw ynfytyn eglwysyddol yn anfon llythyr i'r Parch. Puleston Jones M.A. gweinidog eglwys Penmount, yn erchi iddo dorri gohebydd yr Herald allan o'r seiat cyn y 31ain o'r mis hwn, neu ynteu y bydd yn chwythu capel y Mount i fyny â ffrwd belen.

Ymddengys mai am ei sylwadau beiddgar ynglŷn â'r hyn a ysgrifennwyd am elynion mesur dadgysylltiad yr eglwys y dymunai y llythyrwr weld gohebydd yr Herald yn cael ei ddiarddel o'r seiat.

## I DRWSIO'R HEN DRYSORAU

*(Parhad o dudalen 2)*

ddylunio, argraffu a rhwymo llyfrau gan Frances Wakeman Books, 13 Carlton Business Centre, Station Road, Carlton, Nottingham NG4 3AA. Ffôn: 0115 956 6850. Ffacs: 0115 956 6914. E-bost: info@fwbooks.com.; Gwefan: www.fwbooks.com. Chwilier gwefannau megis http://palimpsest.stanford.edu *(The Guild of Book Workers)*.

I ryw raddau gellir cael gwahanol fathau o bapur a chardbord, plaen, lliw a phatrymog, glud ayyb o siop defnyddiau celfyddydol; ceir adran dda iawn yn Do-it-All, o leiaf yma ym Mangor. Ceir gwell dewis o ymweld â chwmni megis F.J. Ratchford Ltd., Kennedy Way, Green Lane, Stockport SK4 2JX. Ffôn: 0161 480 8484. Ffacs: 0161 480 3679. E-bost: info@jratchford.co.uk. Gwefan: www.fjratchford.co.uk. Mae'r cwmni'n arbenigo ar gyflenwi llyfr-rwymwyr ond nid yw'n gwerthu offer megis gweisg. Ceir y dewis gorau oll yn siop a chatalog J. Hewitt & Sons Ltd., Unit 28, Park Royal Metro Centre, Britannia Way, London NW10 7PR. Ffôn: 0181 965 5377. Ffacs: 0181 453 0414. Gwefan: www.hewit.com. Cwmni pwysig arall yw Shepherds Bookbinders Ltd, 76 Rochester Road, London SW12 1JU. Ffôn: 020 7620 0060. Ffacs: 020 7931 0541. E-bost: shepherds@bookbinding.co.uk. Yn nes adref, gellir prynu pob math o offer rhwymo gan gwmni 'Homeward Bound' a symudodd i 'Raifft Bach, Penllech, Tudweiliog, ger Pwllheli, Gwynedd. Ffôn/Ffacs: 01758 770680.

Mae offer rhwymo, os ydych chi'n uchelgeisiol, yn sobor o ddrud, a champ yw dod o hyd i offer ail-law. Mae'n werth chwilio siopau hen gelfi a chadw llygad ar hysbysebion ynghylch arwerthiannau, yn enwedig lle bo swyddfa, ffatri neu bapur lleol yn cau neu goleg technegol yn newid ei gyrsiau. Gwylier am hysbysebion mewn papurau megis *Quids In* a chylchgronau megis *Book and Magazine Collector*. Cyn hyn defnyddiais y gweisg bychain a ddefnyddir i sychu dail a blodau rhwng dalennau o bapur sidan: fe wnânt y tro ar gyfer llyfrau clawr papur o leiaf. Os ydych yn dipyn o saer coed, gallech yn hawdd wneud ffrâm wnïo eich hun, neu fe allech ofyn i saer coed wneud un i chi. Mae rhai llyfrau a safleoedd gwe, megis safle'r *Canadian Bookbinders and Book Artists Guild* (www.cbbag.ca) yn rhoi cyngor ynghylch sut i wneud eich offer eich hun.

Bûm yn ffodus iawn yn ddiweddar. Wrth chwilio'r Rhyngrwyd daeth fy ngwraig o hyd i ddyn yn hysbysebu casgliad sylweddol o offer rhwymo am bris da iawn. Y cam nesaf fydd dysgu sut i'w defnyddio!

Fe aeth rhwymwyr llyfrau â llaw yng Nghymru mor brin â dannedd iâr, neu o leiaf dyna fy argraff. A oes 'na hen lawiau ar y grefft ymhlith darllenwyr *Y Casglwr*? Os felly, byddai'n wiw clywed peth o'ch profiad.